# Partneriaeth AGA Y Brifysgol Agored yng Nghymru Rhaglen TAR: Bwletin Ymchwil

**Rhifyn 12: Mai 2025**

Croeso i fwletin ymchwil y Rhaglen TAR. Os ydych chi'n ymgymryd ag unrhyw ymchwil neu ymholiadau proffesiynol, byddem yn croesawu'r cyfle i rannu hyn gyda'r Bartneriaeth. Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ymchwil ar draws y bartneriaeth ar wefan y Bartneriaeth, gan gynnwys eitemau/blogiau yn Y Llais. Os hoffech wybod mwy am weithgareddau ymchwil Rhaglen TAR, cysylltwch ag Alison Glover (alison.glover@open.ac.uk).

## *Yn y rhifyn hwn ..........*

- **Dysgu creadigol mewn pynciau STEM**: Deall creadigrwydd ac archwilio rôl yr athro mewn un ysgol gynradd.
- **Adrodd am ddigwyddiadau hiliol:** Barn dysgwyr, rhieni a gweithwyr addysg proffesiynol o 10 ysgol yng Nghymru.
- **Pontio o'r ysgol gynradd i'r uwchradd:** Lleisiau 25 o ddysgwyr am y profiad o bontio o'r ysgol gynradd i'r uwchradd.
- **Llais y Cydlynydd ADY**: Archwilio'r rhyngweithio rhwng polisi ac ymarfer addysg gynhwysol ac anghenion dysgu ychwanegol.
- **Gweithgareddau ymchwil y bartneriaeth:** Prosiect ymarfer myfyrio cydweithredol ac adnoddau technoleg 360°.

## Dysgu creadigol mewn pynciau STEM

*' Galluogi plant i ddefnyddio eu dychymyg, i gymryd risgiau ac i ddatblygu syniadau yn eu ffyrdd eu hunain.'*

Nod y prosiect hwn oedd rhoi gwell dealltwriaeth o greadigrwydd, rôl yr athro mewn dysgu creadigol a'r defnydd o ddulliau dysgu creadigol yn yr ystafell ddosbarth. Trwy holiadur ar-lein casglwyd barn 14 o athrawon ysgol mewn un ysgol gynradd. Mae'r defnydd o greadigrwydd mewn pynciau STEM yn cael ei ystyried yn ffordd hanfodol i blant ddysgu, yn enwedig o ran gwella perfformiad. Fodd bynnag, mae athrawon yn wynebu cymhlethdod wrth geisio darparu dysgu creadigol, fel yr angen am adnoddau, lle ar y cwricwlwm a diwallu anghenion plant. Nid yw'n bosibl i athrawon bob amser ddefnyddio dulliau dysgu creadigol, er eu bod yn awyddus i wneud hynny.

Dawson, K. (2024) Teachers' perspectives on creative learning methods in STEM subjects in primary education, *Transformations* 5(1). https://educationstudies.org.uk/?p=25331.

**Adrodd am ddigwyddiadau hiliol**

*'Fel menyw sy'n gwisgo hijab, mae disgyblion yn aml yn chwerthin neu'n galw enwau. Rwy'n ei anwybyddu – mae'n gyffredin.'*

Cymerodd pum deg chwech o ddisgyblion o gefndiroedd Du ac Ethnig Lleiafrifol o 10 ysgol ar draws pum awdurdod lleol yn ne-ddwyrain Cymru, 15 rhiant a saith gweithiwr addysg proffesiynol ran mewn sgyrsiau grwpiau ffocws. Mabwysiadwyd persbectif cyfiawnder cymdeithasol sy'n dadansoddi a rhoi sylw i 'hil' a strwythurau cymdeithasol wedi'u radicaleiddio. Canfuwyd bod digwyddiadau hiliol / effaith bwlio hiliol yn gallu effeithio ar bobl ifanc mewn ffyrdd niweidiol. Roedd disgyblion a oedd wedi profi digwyddiadau hiliol / bwlio hiliol yn gwerthfawrogi'r cyfle i'w lleisiau gael eu clywed ond roeddent yn amheus y byddai'n gwneud gwahaniaeth iddyn nhw yn yr ysgol. Dylai ysgolion roi polisïau ar waith, sy'n cofnodi ac yn mynd i'r afael â digwyddiadau, ynghyd â hyfforddi staff.

Davis, S., Haughton, C., Olusola, J. and Andrews, L. (2025) Investigating why pupils in a range of primary and secondary schools in Southeast Wales, UK, do not report racist incidents / racist bullying. Implications and recommendations for practice, *Equity in Education & Society*. https://doi.org/10.1177/27526461241312235.

**Pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd**

*'Dw i ychydig yn ofnus ond hefyd yn eithaf cyffrous, oherwydd dw i ddim yn gwybod sut rydw i'n mynd i ymdopi gyda'r gwersi.'*

Archwiliwyd y profiad o bontio o'r ysgol gynradd i'r uwchradd gyda 25 o ddysgwyr o ddwy ysgol yn ne Cymru. Roedd dadansoddiad a wnaed o'r data yn cydnabod rôl 'pobl eraill arwyddocaol' wrth gefnogi dysgwyr yn ystod y cyfnod pontio a chydnabuwyd y teimladau cymysg o gyffro a phryder a brofwyd gan ddysgwyr. Dyma rai o'r argymhellion: dylai dysgwyr roi adborth ar yr holl ddigwyddiadau pontio, mae angen i ysgolion ddarparu nifer o gyfleoedd i ddysgwyr gyfarfod ei gilydd ac mae angen i rieni gadw deialog agored gyda'u plant i hwyluso'r cyfnod pontio.

Hodgkin, K., Packer, R. and Place, C. (2025) Navigating the complexity of transition: sharing the views of learners during the primary-secondary school transition in Wales, *Education 3-13*. https://doi.org/10.1080/03004279.2024.2447329

**Llais y Cydlynydd ADY**


*' Dw i'n cario fy nghyfrifiadur o gwmpas y lle; does gen i unman i fynd, sydd ddim yn braf.'*

Roedd yr astudiaeth hon yn archwilio'r rhyngweithio rhwng polisi ac ymarfer addysg gynhwysol ac anghenion dysgu ychwanegol. Casglwyd data gan naw o gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol (Cydlynwyr ADY) yn ystod tri grŵp ffocws yn ne Cymru. Canfu'r astudiaeth fod Cydlynwyr ADY mewn ysgolion cynradd yn wynebu heriau, hynny yw llwyth gwaith cynyddol, cadw cydbwysedd rhwng rolau gwahanol, a chyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â mwy o atebolrwydd gan ysgolion. Roedd agweddau cadarnhaol o newid yn cynnwys gweithio mwy gyda rhieni trwy arferion cynllunio sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, bod cynhwysiant ac anghenion dysgu ychwanegol i uwch arweinwyr yn fwy amlwg, a datblygu ystod ehangach o ddarpariaethau mewn ysgolion ar gyfer cymorth academaidd a chymdeithasol. Disgrifiodd Cydlynwyr ADY arferion a ddatblygwyd sy'n cydymffurfio â'r rhaglen ddiwygio ond disgrifiodd hefyd arferion nad ydynt yn cydymffurfio a oedd yn cael eu gorfodi'n lleol ac yn aml yn cael eu haddasu o'r system flaenorol ar gyfer anghenion addysgol arbennig.

Murphy, A., Greenway, C. and Conn, C. (2024) Negotiating additional learning needs reform in Wales: The voice of the ALNCo, *British Journal of Special Education*. https://doi.org/10.1111/1467-8578.12568.

## Gweithgareddau ymchwil Partneriaeth AGA y Brifysgol Agore

Ar hyn o bryd mae nifer o athrawon dan hyfforddiant yn cymryd rhan mewn prosiect cydweithredol a fydd yn datblygu pecyn cymorth / adnoddau i gefnogi **ymarfer myfyriol.** Mae'r gwaith hwn yn cael ei gefnogi gan gyllid PRAXIS Y Brifysgol Agored. Bwriedir cynnal ail weithdy undydd gydag athrawon dan hyfforddiant ym mis Mehefin.



Gan weithio gyda phob un o'r naw prifysgol yng Nghymru mae staff tîm TAR yn cyfrannu at brosiect grŵp **Cydweithredol Cymru ar gyfer Dylunio Dysgu**.

Mae llawer o adnoddau ar gael, er enghraifft: profiad trwy dechnoleg ymgolli o Amgueddfa Lechi Cymru; delweddau 360˚ o Eglwys Gadeiriol Llandaf, y Senedd, Bae Caerdydd; ac adnoddau addysgu ac adnoddau ar-lein i'w defnyddio yn yr ystafell ddosbarth.

## Adnoddau am ddim OpenLearn

Mae OpenLearn yn cynnwys llawer iawn o adnoddau am ddim - cyrsiau, erthyglau a fideos i'w harchwilio.





Er enghraifft:

Addysg gynhwysol: deall yr hyn a olygwn (Cymru)

A all defnyddio iaith arwain at hiliaeth?

Mudiad Blynyddoedd Cynnar Egnïol Cymru





**Cliciwch yma i gofrestru ac ymuno** â ni yn ein dathliad o ymchwil ar draws y Bartneriaeth **ddydd Gwener 20 Mehefin 2025** (9.30am-12.30pm).

Bydd prif gyflwyniad y gynhadledd gan yr Athro Teresa Cremin, a bydd athrawon dan hyfforddiant a staff ysgolion sy’n bartneriaid yn cyflwyno eu hastudiaethau ar raddfa fach ac ymholiadau ysgolion.
Bydd y rhaglen lawn ar gael yn fuan.